



22 Mai 2018

Annwyl

ATISN 12290

Diolch i chi am eich cais am wybodaeth a ddaeth i law ar 16 Ebrill 2018. Roeddech yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol:

1. A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet gyhoeddi -pob eitem o ohebiaeth a anfonwyd gan y Gweinidog neu ei swyddogion at swyddogion y Cynulliad Cenedlaethol rhwng 1 Hydref 2017 a 1 Mawrth 2018 ynghylch (a) Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018 a/neu (b) Rheoliadau Safonau'r Gymraeg ym maes iechyd?
2. A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet restru pob eitem o ohebiaeth, gan gynnwys dyddiad anfon a theitl, a anfonwyd gan y Gweinidog neu ei swyddogion at y Cynulliad Cenedlaethol rhwng 1 Hydref 2017 a 1 Mawrth 2018 ynghylch (a) Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018 a/neu (b) Rheoliadau Safonau'r Gymraeg ym maes iechyd?
3. A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet gyhoeddi copi o'r atodiadau i bob eitem o ohebiaeth a anfonwyd gan y Gweinidog neu ei swyddogion at swyddogion y Cynulliad Cenedlaethol rhwng 1 Hydref 2017 a 1 Mawrth 2018 ynghylch (a) Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018 a/neu (b) Rheoliadau Safonau'r Gymraeg ym maes iechyd?

Er gwybodaeth, rydym wedi diystyrru'r ail a'r trydydd cwestiwn gan eu bod yn gofyn am wybodaeth sydd hefyd wedi'i dal gan y cwestiwn cyntaf.

Rwyf wedi dod i'r casgliad bod modd cael mynediad at rywfaint o'r wybodaeth rydych wedi gofyn amdani drwy ddulliau eraill, felly nid wyf wedi darparu'r wybodaeth honno, a hynny yn unol ag adran 21(1) Deddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae gwybodaeth arall wedi'i heithrio o dan adrannau 35(1)(a), neu adran 36(2)(c) os nad yw adran 35(1)(a) yn berthnasol; 41(1); a 42(1) Deddf Rhyddid Gwybodaeth (DRhG). Mae'r wybodaeth honno wedi'i rhestru isod.

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ymateb

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd,
CF10 3NQ

E-bost: rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei bod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir,

Atodiad 1:

1. Gwybodaeth na chaiff ei rhyddhau o dan adran 21 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth gan fod modd cael mynediad at rywfaent o'r wybodaeth rydych wedi gofyn amdani drwy ddulliau eraill

- Gohebiaeth ar ffurf e-bost rhwng swyddfa breifat Gweinidog y Gymraeg ac Addysg Gydol Oes, ac aelod o'ch staff cymorth chi a anfonwyd rhwng 14 a 20 Chwefror 2018.
- Mae gohebiaeth â Swyddfa Gyflwyno'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cael ei rhyddhau mewn ymateb i gais blaenorol am wybodaeth. Mae'r wybodaeth honno ar gael yn nogfennau 1, 1a ac 1b yn y ddolen isod:
<https://gov.wales/about/open-government/freedom-of-information/responses/2018/Apr18/at isn12134/?lang=cy>

2. Rwyf hefyd wedi penderfynu cadw'r wybodaeth ganlynol yn ôl:

Gwybodaeth a gedwir yn ôl	Rhif yr adran ac enw'r eithriad
Gohebiaeth rhwng Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Cynulliad	Adran35(1)(a) – Mae'r wybodaeth wedi'i heithrio os yw'n ymwneud â llunio neu ddatblygu polisi Llywodraeth. <i>(Information.....is exempt information if it relates to – the formulation or development of government policy)</i>
	Adran 41 - eithrio gwybodaeth y byddai ei rhyddhau yn torri cyfrinachedd <i>(exempts information where release would be an actionable breach of confidence).</i>
	Adran 42 - Braint Broffesiynol Gyfreithiol <i>(Information in respect of which a claim to legal professional privilege could be maintained).</i>

Fel arall, rydym o'r farn bod y wybodaeth ganlynol wedi'i eithrio rhag ei rhyddhau o dan Adran36(2)(c) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth:

Gwybodaeth a gedwir yn ôl	Rhif yr adran ac enw'r eithriad
Gohebiaeth rhwng Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Cynulliad	Adran36(2)(c) Niweidio gweinyddu materion cyhoeddus mewn modd effeithiol
	<i>(prejudice the effective conduct of public affairs)</i>

Gweithredu adran 35(1)(a) - Llunio polisi'r Llywodraeth

Mae Adran 35(1)(a) Deddf Rhyddid Gwybodaeth yn nodi (nid oes fersiwn Cymraeg):

*“Information held by a government department or by the Welsh Assembly Government is exempt information if it relates to—
(a) the formulation or development of government policy”*

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylid eithrio gohebiaeth rhwng Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru a swyddogion cyfreithiol Comisiwn y Cynulliad o'r gofynion datgelu o dan adran 35 y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Tra bod Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 wedi pennu'r fframwaith polisi cyffredinol, mae Rheoliadau safonau yn pennu manylion polisi. Mae'r Rheoliadau sy'n destun i'r cais hwn am wybodaeth yn enghraifft o'r math hwnnw o Reoliadau sy'n pennu manylion y polisi.

Mae trafodaethau rhwng swyddogion cyfreithiol cyn i'r Rheoliadau gael eu gosod yn gallu cyfrannu tuag at y broses o lunio polisi ar gyfer rheoliadau o'r fath. Fel mae canllawiau'r Comisiynydd Gwybodaeth ar Adran 35 yn ei gydnabod, mae'r broses o lunio polisi yn parhau hyd at y daw'r ddeddfwriaeth i rym.

Prawf Budd y Cyhoedd

Er mwyn bodloni prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r eithriad, mae gofyn dod i'r casgliad bod y budd i'r cyhoedd o beidio â rhyddhau'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn gryfach na'r dadleuon o blaid rhyddhau'r wybodaeth.

Dadleuon budd cyhoeddus o blaid rhyddhau'r wybodaeth

Byddai rhyddhau'r ohebiaeth o bosib yn helpu'r cyhoedd i ddeall y broses o lunio a fformiwleiddio polisi sy'n ymwneud â safonau'r Gymraeg, a'r Rheoliadau i'w gweithredu.

Dadleuon budd cyhoeddus o blaid gweithredu'r eithriad:

Er mwyn i'r broses o baratoi Rheoliadau for yn llwyddiannus, mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn gallu cynnal trafodaethau agored gyda rhanddeiliaid sy'n gallu cyfrannu at y broses ddrafftio.

Mae trafodaethau rhwng cyfreithwyr yn cael eu cynnal ar amodau cyfrinachol. Mae'n bwysig bod gan gyfreithwyr “ofod diogel” (“safe space”) lle gellir adolygu'r drafftio sydd i fod i weithredu'r polisi mewn modd beirniadol, a darparu sylwadau.

Nid ydym yn credu y byddai rhyddhau'r ohebiaeth yn cynyddu dealltwriaeth y cyhoedd o'r safonau.

Cydbwysu buddiannau'r cyhoedd

Rydym o'r farn bod peidio rhyddhau'r ohebiaeth yn drech nag unrhyw fudd cyhoeddus o'u rhyddhau.

Gweithredu adran 41(1) - mae'r wybodaeth yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol

Mae'r adran yn eithrio gwybodaeth rhag cael ei datgelu pan fyddai rhyddhau'r wybodaeth honno yn torri hyder. Mae'n nodi:

“[i]nformation is exempt information if—

*(a) it was obtained by the public authority from any other person (including another public authority), and
(b) the disclosure of the information to the public (otherwise than under this Act) by the public authority holding it would constitute a breach of confidence actionable by that or any other person...*"

Mae'r eithriad hwn yn cymhwyso'r hawl i gael mynediad o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth drwy gyfeirio at weithredu'r gyfraith gyffredin ar gyfer 'torri ymddiriedaeth'. Yn ôl y weithred honno, os oes gan berson sy'n dal gwybodaeth ddyletswydd i gadw'r wybodaeth honno'n gyfrinachol ('dyletswydd o ymddiriedaeth'), bydd yn torri hyder os yw'r person hwnnw'n datgelu'r wybodaeth heb awdurdod, sy'n cynnwys datgelu o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Gall dyletswydd o ymddiriedaeth godi oherwydd natur gyfrinachol y wybodaeth ei hun neu'r amgylchiadau dros gael y wybodaeth.

Mae telerau'r eithriad hwn yn golygu bod angen penderfynu a fyddai amddiffyn budd y cyhoedd yn torri ymddiriedaeth. Rydym wedi gwneud hynny ac yn o'r farn y dylai budd y cyhoedd o ran cynnal cyfrinachedd drechu. Roedd fy ystyriaeth yn cynnwys y pwyntiau canlynol:

- Mae yna fudd y cyhoedd o ran sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus yn dryloyw, atebol ac yn agored i gael eu craffu; a
- fodd bynnag, byddai datgelu yn tanseilio'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu trafod materion yn gyfrinachol gyda staff Comisiwn y Cynulliad. Roedd y wybodaeth o dan sylw wedi cael ei farcio'n gyfrinachol ac roedd angen cyfrinair er mwyn medru cael mynediad at yr atodiadau.

Gweithredu Adran 42(1) - Braint Broffesiynol Gyfreithiol

Mae Adran 42(1) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn datgan:

"Information in respect of which a claim to legal professional privilege or, in Scotland, to confidentiality of communications could be maintained in legal proceedings is exempt information".

Mae braint broffesiynol gyfreithiol yn cwmpasu cyfathrebiadau rhwng cyfreithwyr a'u cleientiaid at ddibenion cael cyngor cyfreithiol, neu ddogfennau a grëwyd gan neu ar gyfer cyfreithwyr ar gyfer ymglyfreitha. Er nad yw'r ohebiaeth hwn rhwng cyfreithiwr a chleient mae'n ymwneud â gwybodaeth (h.y. rheoliadau drafft) sydd wedi cael ei chynhyrchu fel rhan o'r berthynas honno rhwng cyfreithiwr a chleient, ac mae'r trafodaethau rhwng cyfreithwyr yn bwydo i mewn i'r cyngor sy'n cael ei gynig i Weinidogion maes o law .

Mae eithriad adran 42 yn eithriad amodol, sy'n golygu ei fod yn ddarostyngedig i brawf lles y cyhoedd. Nodwyd yn achos Bellamy yn erbyn y Comisiynydd Gwybodaeth a'r DTI [EA/2005/0023] fod budd i'r cyhoedd o roi mynediad i awdurdodau cyhoeddus at gyngor a oedd yn destun braint broffesiynol gyfreithiol. Wrth sôn am fraint broffesiynol gyfreithiol, gwnaeth y tribiwnlys ddatgan:

"there is a strong element of public interest inbuilt into the privilege itself. At least equally strong countervailing considerations would need to be adduced to override that inbuilt interest....it is important that public authorities be allowed to conduct a

free exchange of views as to their legal rights and obligations with those advising them without fear of intrusion, save in the most clear case...’.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bendant ei bod yn hollbwysig cynnal braint broffesiynol gyfreithiol ac, yn absenoldeb ystyriaethau gwrthbwysol sydd yr un mor gryf o leiaf, y byddai unrhyw ymgais i danseilio egwyddor braint broffesiynol gyfreithiol yn arwain at ragfarn sylweddol.

Mae angen i gynghorwyr cyfreithiol allu cyflwyno'r darlun llawn, sy'n cynnwys dadleuon o blaid casgliadau terfynol ac unrhyw wrthddadleuon perthnasol. Dyma yw diben y fraint broffesiynol gyfreithiol sydd wedi hen ennill ei blwyf.

Mae natur cyngor cyfreithiol yn golygu ei fod yn aml yn nodi'r dadleuon posibl o blaid ac yn erbyn safbwynt penodol. Os yw'r rheini sy'n derbyn neu'n darparu cyngor cyfreithiol yn credu ei bod yn debygol y byddai'r cyngor cyfreithiol hwnnw'n cael ei gyhoeddi, yn enwedig mewn amgylchedd gwleidyddol cymhleth, mae'n annhebygol y byddai cyngor cynhwysfawr yn cael ei gomisiynu neu ei ddarparu. Byddai hyn yn achosi niwed sylweddol i ansawdd penderfyniadau gan na fyddent yn seiliedig ar wybodaeth lawn. Byddai hefyd yn tanseilio gallu cynghorwyr cyfreithiol a'u cleientiaid i ddibynnu'n hyderus ar y diogelwch a geir drwy egwyddor braint broffesiynol gyfreithiol. Hefyd, mae'n bosibl iawn y gallai datgelu cyngor cyfreithiol amharu ar allu'r llywodraeth i amddiffyn ei buddiannau cyfreithiol - a hynny'n uniongyrchol drwy ei gwneud yn bosibl er yn annheg i herio ei safbwynt cyfreithiol, ac yn anuniongyrchol drwy ei gwneud yn anoddach iddi ddibynnu ar y cyngor ac a yw wedi'i ystyried yn llawn a'i gyflwyno heb ofn neu ffafriaeth.

O bwysu a mesur y dadleuon o blaid ac yn erbyn rhyddhau'r wybodaeth, rydym yn ystyried bod y budd i'r cyhoedd o beidio â rhyddhau'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn gryfach na'r dadleuon o blaid rhyddhau'r wybodaeth. Felly, mae'r wybodaeth wedi'i dal yn ôl o dan adran 42 yn ogystal â'r eithriadau uchod.

Fel arall, rydym o'r farn bod y wybodaeth ganlynol wedi'i heithrio rhag ei rhyddhau o dan Adran 36(2)(c) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth:

Gweithredu Adran 36(2)(c) - Niweidio'r gweinyddiad effeithiol o faterion cyhoeddus

Mae Adran 36(2)(c) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn datgan:

“(2) Information to which this section applies is exempt information if, in the reasonable opinion of a qualified person, disclosure of the information under this Act—

(c) would otherwise prejudice, or would be likely otherwise to prejudice, the effective conduct of public affairs.”

Mae gwirio anffurfiol gan staff cyfreithiol Comisiwn y Cynulliad yn chwarae rhan bwysig yn y broses ddeddfwriaethol. Mae'n broses sy'n sefyll ers amser hir a hefyd yn digwydd rhwng Llywodraeth Prydain a Senedd San Steffan. Pe bai gohebiaeth rhwng y Llywodraeth a chyfreithwyr y Comisiwn yn cael ei rhyddhau rydym o'r farn y byddai hynny yn creu risg na fyddai'r gwirio anffurfiol yn digwydd yn y dyfodol, neu, fyddai sgôp y cyngor a'r trafodaethau yn cael ei gyfyngu. Byddai hynny yn effeithio ar

weinyddu materion cyhoeddus, o ran ansawdd y ddeddfwriaeth sy'n cael ei gosod yn y Cynulliad a hefyd o ran yr amser y byddai ei angen ar y Cynulliad i graffu'r ddeddfwriaeth.

O ran y dasg benodol o baratoi Rheoliadau i wneud safonau'r Gymraeg, er mwyn i'r broses o greu Rheoliadau i fod yn llwyddiannus mae'n bwysig bod modd i'r Llywodraeth gynnal trafodaethau onest gyda rhanddeiliaid. Mae'r fath drafodaethau yn cyfrannu at y broses ddrafftio. Rydym o'r farn y byddai rhyddhau'r ohebiaeth yn niweidiol i'r broses o wneud Rheoliadau Safonau'r Gymraeg yn y dyfodol. Rydym yn pryderu y byddai rhyddhau'r ohebiaeth yn cwtdogi ar ba mor agored y mae trafodaeth ar Reoliadau yn y dyfodol. Yn ein barn ni, ni fyddai rhyddhau'r ohebiaeth yn cynyddu dealltwriaeth y cyhoedd o'r safonau, na sut daethpwyd at benderfyniadau polisi. Maent yn drafodaethau am fanylion cyfreithiol technegol.

O ystyried bod rhai o'r eithriadau posib o dan adran 36 yn eang iawn, mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth yn nodi bod modd gweithredu'r eithriad dim ond os bydd "person wedi'i gymhwyso" ("*qualified person*") o'r farn bod yr eithriad yn berthnasol. Ar gyfer Llywodraeth Cymru, mae'r Prif Weinidog wedi penodi'r Cwnsler Cyffredinol i fod yn "person wedi'i gymhwyso". Yng nghyd-destun y cais hwn am wybodaeth mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi penderfynu bod yr eithriad yn berthnasol i'r cais.

Cydbwysu buddiannau'r cyhoedd

Nid ydym yn credu y byddai rhyddhau'r ohebiaeth yn cynyddu dealltwriaeth y cyhoedd o'r safonau. Rydym o'r farn bod peidio rhyddhau'r ohebiaeth yn drech nag unrhyw fudd cyhoeddus o'i rhyddhau.